**Gwenda Thomas AC / AM**
**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref: P-04-492
Ein cyf/Our ref: GT/00621/13
William Powell AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

17 Hydref 2013

Annwyl William,

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 3 Hydref, yn ymateb i fy llythyr i, dyddiedig 17 Awst, am ddiagnosis o anhwylderau yn y sbectrwm awtistig (ASD) mewn plant. Darllenais â diddordeb y llythyr a dderbyniwyd gennych gan y deisebwyr, Cangen Sir Benfro o'r Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth. Rwy'n cydnabod ei bod yn bwysig rhoi sylw i'w pryderon ac y dylid sicrhau bod gwasanaethau diagnostig o ansawdd uchel ar gael yn brydlon ymhob ardal o Gymru.

Rwy'n hapus i ysgrifennu i'r holl Fyrddau Iechyd yng Nghymru er mwyn ceisio cael gwybodaeth am faint o amser sy'n rhaid i blant orfod aros i gael diagnosis o ASD yn eu hardal, a'u defnydd o ganllawiau NICE ar ddiagnosis o ASD mewn plant. Byddaf yn sicrhau bod yr wybodaeth a ddarperir yn llywio gwaith y Grŵp Ymgynghori Rhanddeiliaid ASD a gynhaliodd ei gyfarfod cyntaf fis diwethaf. Rwy'n falch fod yna gynrychiolaeth o Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru yn y Grŵp hwnnw.

Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion fynd ar drywydd y cynnydd a wneir gan Hywel Dda ar roi eu cynllun gweithredu ar waith i fynd i'r afael â'r rhestr aros yn Sir Benfro, a byddaf yn ysgrifennu atoch i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am hyn ym mis Chwefror 2014, yn ôl eich cais.

Yn gywir

Gwenda.

**Gwenda Thomas AC / AM**
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services